I : Riant/Gwarcheidwad

**Gofynnwch Am:**
**Please Ask For:** Lisa Kidner
**Rhif Est:**
**Telephone Nº:**
**Ffacs:**
**Fax:**
**E-Bost:**
**E-Mail:**
**Cylchlythyr:**
**Circular:** 76/2023-24

| Fy nghyf: My Ref: | LK/TM | Eich Cyf: Your Ref: | | Dyddiad: Date: | 2 Gorffennaf 2024 |
|---|---|---|---|---|---|

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

**Cais - Clybiau Brecwast am ddim mewn Ysgolion Cynradd**

O dymor yr hydref (Medi 2024) ymlaen, bydd system weinyddu'r Clybiau Brecwast am ddim mewn Ysgolion Cynradd yn cael ei digideiddio, a bydd angen i chi gyflwyno cais am le ar-lein. **Mae'n hanfodol bwysig bod y cais yma yn cael ei gwblhau cyn i'r plentyn/plant fynychu'r Clwb Brecwast.**

Bydd y ffurflen gais ar gael ar-lein am **10.00 a.m. ar 9 Gorffennaf 2024**.

***Nodwch, nid yw pob ysgol yn sicrhau argaeledd clwb brecwast i blant oedran Meithrin. Os yw hyn yn berthnasol i chi, gwiriwch â'ch ysgol fod yr opsiwn yma ar gael, cyn cyflwyno cais.***

Mae modd i chi gael mynediad at y ffurflen gais digidol drwy'r ddolen isod, neu drwy fynd i wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf www.rctcbc.gov.uk/Clybiaubrecwast.

- Dim ond 1 cais sydd ei hangen **ar gyfer pob aelwyd** hyd yn oed os yw eich plant yn mynychu ysgolion gwahanol (mae'r ffurflen yn caniatáu i chi nodi ysgol pob plentyn).
- Byddwch chi'n derbyn ymateb dros e-bost ar gyfer pob cais llwyddiannus.

Os yw plentyn rydych chi wedi cyflwyno cais ar ei ran yn gymwys ar gyfer cymorth ychwanegol wrth gael mynediad at y ddarpariaeth clwb brecwast, cysylltwch â'r ysgol wedi i chi dderbyn cadarnhad am gais llwyddiannus er mwyn trafod eu hanghenion.

Rhaid cyflwyno cais newydd ar gyfer pob tymor newydd - bydd dyddiad cyflwyno ceisiadau newydd yn cael ei gyhoeddi gan yr ysgolion ac ar dudalennau'r cyfryngau cymdeithasol.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth clwb brecwast, ewch i adran 'Cwestiynau Cyffredin' y wefan neu cysylltwch â'ch ysgol am ragor o gyngor a chymorth.

Yn gywir,

**Andrea Richards**
**Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid**